
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd A'r Fro
Llunio Ein Gwasanaethau Clinigol I'r Dyfodol

Llunio ein
Llesiant
i'r Dyfodol

# EIN CYNLLUN BABANOD, PLANT A PHOBL IFANC HYD 2035

*Meithrin dechreuadau llachar, Sicrhau bywydau iach*



# Ynglŷn â'r Cynllun

Crëwyd y cynllun gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'u Bwrdd Ieuenctid.

Dyma un o'r cyntaf o'n cynlluniau hirdymor sy'n helpu i ddisgrifio sut y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth:

- Helpu pobl i fyw bywydau iachach
- Sicrhau bod pawb yn cael canlyniadau iechyd da, ni waeth pwy ydyn nhw
- Darparu gofal o ansawdd rhagorol

Bydd y cynllun hwn yn ein helpu i sicrhau bod pob babi, plentyn a pherson ifanc yn derbyn gofal o ansawdd uchel. Bydd yn datblygu dros amser wrth i dechnoleg wella ac wrth i anghenion newid yn y gymuned.

O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gan bob plentyn yr hawliau hyn:

- Yr hawl i'r safon gofal iechyd gorau posibl
- Yr hawl i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnynt gan gynnwys eu gofal iechyd

# Beth a ddywedoch

Er mwyn ein helpu i lunio'r cynllun hwn, gwnaethom ofyn i bobl beth oedd yn bwysig iddynt.

Y 5 prif beth yr oedd pobl yn teimlo a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal iechyd oedd:

1. **Y canlyniad gorau i mi / i'r claf**
2. **Cael fy ngweld yn gyflym**
3. **Gweld yr arbenigwr iawn**
4. **Teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi**
5. **Deall beth sy'n digwydd**

**Dywedodd pobl hefyd bod angen i ni wella:**

- Amseroedd aros hir
- Mynediad at ofal arbenigol
- Mannau sy'n ystyriol o blant a phobl ifanc
- Cyfathrebu gyda theuluoedd ac ar draws darparwyr gofal iechyd a sefydliadau eraill
- Pontio i wasanaethau oedolion
- Mwy o ofal rhithwir ac yn y cartref
- Staffio a hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer trin anghenion gofal cymhleth
- Cymorth iechyd meddwl ac emosiynol



Ein Cynllun

# Gwella Iechyd y Boblogaeth, Atal ac Ymyrraeth Gynnar

Hoffem sicrhau bod siawns unigolyn o fyw bywyd iach yr un peth ble bynnag mae'n byw a phwy bynnag ydyw. Rydym yn sicrhau bod gan bobl fynediad at addysg ac yn atal iechyd gwael. Byddwn yn gweithio'n well gyda'n partneriaid i helpu pobl i fwynhau gwell iechyd gartref.

**Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:**

1. Sicrhau bod y rhai sy'n feichiog yn cael gofal parhaus cyn ac ar ôl iddynt gael eu babanod.
2. Canolbwyntio ar 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn a darparu cefnogaeth i deuluoedd agored i niwed, plant ag anableddau, a'r rhai sydd mewn perygl o niwed. Gwneir hyn gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n partneriaid eraill.
3. Mae gweithio gydag awdurdodau lleol i wella gwasanaethau iechyd meddwl a deall iechyd meddwl yr un mor bwysig ag iechyd corfforol.
4. Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy ysgolion. Byddwn yn atal gordewdra, smygu, fepio, a chamddefnyddio sylweddau. Byddwn hefyd yn annog lles emosiynol a chadw'r geg yn iach.
5. Hyrwyddo brechiadau i amddiffyn ac atal clefydau difrifol.
6. Sicrhau bod gan fabanod, plant a phobl ifanc fynediad cyfartal at ofal arbenigol.
7. Sicrhau y gellir cael gofal yn nes at adref.
8. Targedu ardaloedd anghenus iawn i fynd i'r afael â phroblemau iechyd.



# Ein Cynllun

## Iechyd Meddwl

Rydym yn credu bod iechyd meddwl da yn bwysig iawn. Rydym yn sicrhau ein bod yn darparu cymorth iechyd meddwl a lles ar draws ein gwasanaethau. Mae hyn yn helpu babanod, plant a phobl ifanc i ddod yn fwy gwydn.

**Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:**

- Dod yn ganolfan hyfforddi flaenllaw yng Nghymru i ymarferwyr iechyd meddwl.
- Sicrhau bod ein cydweithwyr yn ystyriol o drawma. Mae hyn yn golygu deall sut y gall profiadau gwael y gorffennol effeithio'n negyddol ar bobl a chymunedau. Gall trawma wneud i bobl deimlo'n anniogel neu ei chael hi'n anodd cynnal perthynas dda â'r rhai sy'n darparu eu gofal.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gofal gwych gyda ffocws ar iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn treialon ar gyfer triniaeth newydd.
- Darparu gwasanaethau yn ddigidol ac yn y gymuned fel bod gan bawb fynediad teg.

## Gofal wedi'i Gynllunio

Dylai cleifion allu derbyn gofal o ansawdd uchel mewn da bryd gyda mynediad at yr arbenigwyr cywir. Byddwn yn gweithio ar draws y sefydliad a gyda'n partneriaid i wella gofal wedi'i gynllunio. Byddwn hefyd yn datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion cynyddol ac i sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal.

**Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:**

- Cydweithio ar draws y sefydliad a chyda'n partneriaid.
- Sicrhau bod gan bawb fynediad teg, ni waeth ble maent yn byw na phwy ydynt.
- Ehangu gwasanaethau llawfeddygol a gofal dydd yn yr Ysbyty Plant. Bydd hyn yn ein helpu i leihau amseroedd aros, datblygu ein technegau llawdriniaeth, a galluogi pobl i gael gwell canlyniadau iechyd.



# Ein Cynllun

## Gofal mewn Argyfwng a Gofal

Hoffem sicrhau ein bod yn cynnig y gwasanaeth gorau i blant sy'n ddifrifol wael a'u teuluoedd. Byddwn yn datblygu system gofal mewn argyfwng a gofal brys ardderchog sy'n gweithredu bob dydd. Bydd hyn yn sicrhau mynediad amserol i bawb.

**Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:**

- Uno ein holl wasanaethau plant i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu yn y lle iawn.
- Creu mwy o gymorth sydd ar gael gartref ac ar-lein yn rhithwir. Bydd hyn yn golygu na fydd angen i bobl ddod i'r ysbyty gymaint ar gyfer eu hapwyntiadau ac yn lleihau nifer yr ymweliadau brys.
- Darparu mwy o hyfforddiant i gydweithwyr ar gyfer gofal sy'n ystyriol o drawma a gofal i gleifion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Rhoi ein hadnoddau yn y mannau cywir i ddiwallu anghenion ein cleifion.
- Gweithio 7 diwrnod yr wythnos ar draws pob maes ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc sydd angen gofal mewn argyfwng a gofal brys.
- Gwella ein systemau digidol.
- Sicrhau bod gan bawb fynediad at ofal arbenigol, ni waeth pwy ydynt.



# Ein Cynllun

## Gofal Arbenigol

Mae'n bosib y bydd plant yng Nghymru sydd angen gofal arbenigol yn derbyn eu triniaeth yn Ysbyty Plant Cymru. Gallant hefyd fynd i ysbytai eraill sydd wedi'u lleoli yn Lloegr. Mae gwaith yn cael ei wneud gan Gyd-bwyllgor Comisiynu Cymru i wella gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.

**Er mwyn cyd-fynd â'u nodau, rydym yn canolbwyntio ar:**

- Sicrhau bod ein gofal yn cael ei ddarparu yn yr amgylcheddau mwyaf priodol.
- Darparu gofal o ansawdd uchel.
- Gweithio gyda chomisiynwyr i flaenoriaethu meysydd sydd â'r amseroedd aros hiraf.
- Gwella'r trosglwyddiad i mewn ac allan o ofal arbenigol.

## Symud i Ofal Oedolion

Gall symud i ofal oedolion fod yn brofiad gofidus i bobl ifanc. Gall y broses drosglwyddo fod yn gymhleth. Hoffem greu ffordd hawdd o drosglwyddo i ofal oedolion sy'n helpu pobl ifanc i deimlo'n hyderus. Byddwn yn datblygu safonau clir i sicrhau bod trosglwyddo i ofal oedolion yn broses glir ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:**

- Creu polisïau a gweithdrefnau i gefnogi'r broses.
- Cefnogi teuluoedd a gofalwyr, yn enwedig pan fydd gan y claf anghenion dysgu ychwanegol.
- Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at ofal heb rwystrau.



# Ein Cynllun

## Adsefydlu

Mae adsefydlu yn helpu pobl i adennill neu wella galluoedd y gallent fod wedi'u colli yn sgil anaf, salwch neu lawdriniaeth. Gall y rhain fod yn alluoedd corfforol, meddyliol neu gymdeithasol. Gall helpu pobl i ddod yn annibynnol, gwella ansawdd eu bywyd a byw fel yr oeddent yn arfer gwneud.

Hoffem helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau adsefydlu a fydd yn arwain at y canlyniadau gorau. Dylai gofal eu rhoi nhw yn y canol. Byddwn yn darparu asesiadau, cynlluniau a chefnogaeth. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar hygyrchedd a sicrhau bod cydweithwyr ar draws gwahanol adrannau yn rhan o'r gofal.

**Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:**

Gosod gwasanaethau adsefydlu mewn lleoliadau cymunedol.

- Sicrhau ein bod yn well am atgyfeirio at wasanaethau.
- Gwella'r ffordd y mae gwahanol wasanaethau yn y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'i gilydd.
- Grymuso plant a'u teuluoedd.
- Darparu gofal o ansawdd rhagorol a bodloni'r safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau.
- Casglu adborth a phrofiadau cleifion.
- Darparu offer digidol i blant a'u teuluoedd i helpu gyda'u hadsefydlu.

**Byddwn yn blaenoriaethu:**

- Lleihau amseroedd aros hir.
- Sicrhau bod gan bawb fynediad, ni waeth pwy ydynt na ble maent yn byw.
- Gofalu am bobl sy'n niwrowahanol (er enghraifft pobl sydd ag awtistiaeth, ADHD, dyspracsia, ac ati).
- Gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Cefnogaeth i deuluoedd.
- Defnyddio mannau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd.
- Sicrhau bod ein gofodau yn ystyriol o blant.
- Cymorth iechyd meddwl.



# Ein Cynllun

## Gofal Lliniarol

Mae gofal lliniarol yn ofal arbenigol i bobl sy'n byw gyda salwch difrifol neu salwch sy'n peryglu bywyd. Gall ddarparu ffyrdd o leddfu poen, helpu gyda straen y salwch, a gwella ansawdd bywyd.

Mae gan dros 4000 o blant yng Nghymru gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae hyn yn cyfrif am y rhan fwyaf o farwolaethau ymhlith plant.

Hoffem sicrhau bod gan bob plentyn sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd fynediad at wasanaethau lleol ac arbenigol. Dylent gael gofal sydd wedi'i deilwra iddynt.

Bydd Rhwydwaith Gofal Lliniarol Pediatrig Cymru Gyfan yn dod â sefydliadau ynghyd i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd yn cael y gofal gorau. Mae hyn yn cynnwys mynediad 24/7 at ofal lliniarol arbenigol, gartref, mewn hosbis neu ysbyty.

**Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol::**

- Creu timau arbenigol yn y meysydd sydd â'r angen mwyaf.
- Creu cefnogaeth i drosglwyddo i ofal lliniarol.
- Sicrhau ein bod yn cydweithio'n dda ar draws ein gwasanaethau.
- Defnyddio technoleg i helpu cleifion.
- Sicrhau bod ein gwasanaethau'n gallu ymdopi â nifer y bobl sydd mewn angen.
- Cyflogi mwy o weithwyr proffesiynol sy'n gallu darparu gofal lliniarol.
- Darparu hyfforddiant i bobl nad ydynt yn arbenigwyr sy'n gofalu am blant sy'n marw.



# Y Llinell Amser

**Yn ystod 2024-2027, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- Trin salwch cyn gynted â phosibl.
- Atal salwch.
- Sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn y gymuned.
- Gwella ein gwasanaethau ysbytai.
- Adeiladu canolfan ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.
- Gweithio gydag ysgolion i sicrhau iechyd da.
- Hyfforddi ein cydweithwyr.
- Sicrhau bod trosglwyddo rhwng gofal yn hawdd.
- Sicrhau bod y ffordd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ledled Cymru yn gwella.
- Sicrhau bod ein staff a'n gwasanaethau yn cael eu paratoi a'u cefnogi.

**Yn ystod 2028-2030, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- Gwella mynediad at ofal arbenigol.
- Defnyddio'r dechnoleg gywir i wella ein gwasanaethau.
- Gwneud gwelliannau i Ysbyty Plant Cymru.
- Sicrhau bod y ffordd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ledled Cymru yn gwella.
- Gwella ein gwasanaethau iechyd meddwl.
- Sicrhau bod trosglwyddo i ofal oedolion yn hawdd.
- Lleihau amseroedd aros.
- Sicrhau bod modd cael mynediad at adsefydlu yn y gymuned.
- Sicrhau bod y ffordd rydym yn gweithio yn cyfateb â'r dechnoleg a'r data diweddaraf.

**Yn ystod 2031-2035, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- Defnyddio technoleg newydd a thechnoleg uwch ar gyfer gofal iechyd.
- Bod yn arweinydd o ran ymchwil a chanlyniadau iechyd i fabanod, plant a phobl ifanc.
- Gosod y safon aur o ran cefnogi pobl ifanc sy'n symud i ofal oedolion.
- Creu ardal adsefydlu bwrpasol yn Ysbyty Plant Cymru.



# Sut fydd yn teimlo?

Rydym yn gobeithio gweld newid cadarnhaol yn sgil ein cynllun.

**Dylai cydweithwyr allu dweud:**

- "Rwy'n teimlo'n rhan o dîm gwerthfawr."
- "Rwy'n darparu gofal o safon."
- "Gallaf greu newid cadarnhaol."
- "Rwy'n bodloni anghenion fy nghleifion."
- "Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi gan y Bwrdd Iechyd."
- "Gallaf gymryd rhan mewn hyfforddiant ar gyfer fy swydd."

**Dylai pobl ifanc allu dweud:**

- "Rwy'n gwybod sut i gadw fy hun yn iach."
- "Rwy'n gwybod beth sy'n digwydd i mi pan fyddaf yn sâl."
- "Gallaf helpu i wneud penderfyniadau pan fyddaf yn sâl."
- "Rwy'n teimlo'n ddiogel ac wedi fy nghefnogi gyda fy ngofal."
- "Rwy'n hyderus i drosglwyddo i ofal oedolion."

**Dylai teuluoedd allu dweud:**

- "Rwy'n gwybod sut i gadw fy mhlentyn yn iach."
- "Gallaf wneud penderfyniadau gwybodus am ofal fy mhlentyn."
- "Rwy'n gwybod beth sy'n digwydd i fy mhlentyn sâl."
- "Rwy'n ymwybodol o'm hopsiynau."

